

Cyflwyniad

Mae angen i'ch Ymgynghorydd wybod yn fanylach beth sy'n digwydd yn eich pledren ac o'i hamgylch, i ddarganfod beth sy'n achosi i chi gael problemau. Trefnwyd prawf i helpu i ddarganfod achos symptomau eich pledren. Yr enw ar y prawf hwn yw wrodynameg. Nod y daflen hon yw ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin am y weithdrefn. Rydym yn gwerthfawrogi y gallai fod gennych gwestiynau penodol iawn nad ydynt wedi eu cynnwys yn y daflen hon. Os oes, cysylltwch ag un o'r Nyrsys y mae eu rhifau ffôn i'w gweld yng nghefn y llyfryn hwn.

Beth yw Wrodynameg?

Ymchwiliad yw hwn a ddefnyddir i ddarganfod sut mae'ch pledren yn gweithio, trwy fesur pwysau yn eich pledren. Efallai y bydd yn nodi achos eich symptomau fel anymataliaeth, brys neu anhawster gwagio. Bydd y canlyniadau'n helpu'ch Ymgynghorydd i bennu'r math gorau o driniaeth i chi. Gall hyn olygu llawdriniaeth, er y gellir trin llawer o broblemau gyda thabledi ac ymarferion arbennig.

Ble fydd y prawf yn cael ei gynnal?

Mae adrannau wrodynamig ym mhob un o dri safle Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. I benderfynu pa glinig yr ydych am ei fynychu, cyfeiriwch at eich llythyr apwyntiad.

A oes angen i mi wneud unrhyw beth cyn i mi ddod i'r clinig?

Parhewch i gymryd eich meddyginiaethau arferol hyd at a chan gynnwys diwrnod eich prawf.

Os oes gennych falf calon newydd neu eich bod fel arfer yn cael gwrthfotigau cyn triniaeth ddeintyddol, cysylltwch â'r Nyrs Arbenigol cyn gynted â phosibl.

Anfonir siart mewnbwn/allbwn hylif atoch i'w lenwi. Mae'n ddefnyddiol iawn i ni wybod faint rydych chi'n ei yfed a pha mor aml rydych chi'n pasio wrin. Os byddwch yn gollwng wrin, hoffem wybod hefyd pa mor aml y mae hyn yn digwydd. Rydym yn gwerthfawrogi y gallai fod yn anodd llenwi'r siart hon yn y gwaith. Os na allwch fesur wrin yn y gwaith, nodwch yr amser beth bynnag. Darllenwch y cyfarwyddiadau yn ofalus a llenwch y siart hylif am o leiaf 3 diwrnod.

DEWCH Â'R SIART I'R CLINIG GYDA CHI, OS GWELWCH YN DDA.

Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn mynychu'r clinig?

Dewch yn brydlon ar gyfer eich apwyntiad gyda phledren gyffyrddus iawn. Os na allwch 'ddal' pan gyrhaeddwch yr adran, dywedwch wrth y Nyrs yn y clinig neu gofynnwch i'r derbynnydd ddweud wrth y Nyrs. Byddwn yn gwneud ein gorau i gynnwys eich anghenion. Rydym yn gwneud pob ymdrech i gadw at amser a dylech fod yn yr ysbyty am oddeutu 1 awr. Esbonnir y weithdrefn i chi a gofynnir i chi ddweud wrthym yn fyr am eich symptomau cyfredol. Y peth cyntaf a ofynnir i chi ei wneud yw pasio wrin i mewn i doiled arbennig - gelwir hwn yn fesurydd llif ac yn syml mae'n mesur faint o wrin rydych chi'n ei basio.

Yna bydd y Nyrs yn mewnosod 2 diwb, un yn y bledren ac un yn y rectwm. Mae un yn caniatáu i ni lenwi'ch pledren â hylif clir a mesur y pwysau yn eich pledren wrth iddi lenwi. Mae angen i ni hefyd roi tiwb yn y rectwm. Mae'r tiwbiau wedi'u gwneud o blastig tenau iawn. Trosglwyddir y wybodaeth hon i gyfrifiadur a byddwch chi'n gallu gweld beth sy'n digwydd ar sgrin y cyfrifiadur os ydych chi'n dymuno.

Bydd eich pledren yn cael ei llenwi'n araf â hylif clir a byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym sut mae'ch pledren yn teimlo, e.e. pryd y byddech chi fel arfer eisiau mynd i'r toiled.

Pan fydd eich pledren yn teimlo'n llawn, byddwn yn rhoi'r gorau i lenwi, ac yn gofyn i chi basio wrin eto yn ein toiled arbennig. Bydd y tiwbiau sy'n weddill yn cael eu tynnu a byddwch chi'n gallu gwisgo amdanoch.

Bydd naill ai'r meddyg neu'r Nyrs yn egluro canlyniadau'r profion i chi ac yn ateb unrhyw gwestiynau cyn belled ag y bo modd.

Anfonir apwyntiad atoch hefyd i weld eich Ymgynghorydd a thrafod y canlyniadau a'r driniaeth yn fwy manwl.

Mae'n bwysig rhoi gwybod i ni os oes angen i chi newid neu ganslo'ch apwyntiad. **Yna byddwn yn gallu cynnig eich slot i glaf arall.**

Beth sy'n digwydd ar ôl y prawf?

Gallwch fynd adref yn syth ar ôl y prawf ac mae'n ddiogel i chi yrru.

A oes unrhyw risgiau?

Yn dilyn wrodynameg, gall nifer fach o gleifion gael mân broblemau. Y rhai mwyaf cyffredin yw amledd h.y. pasio dŵr yn amlach, olion gwaed yn yr wrin ac ychydig o anghysur wrth basio wrin. Bydd y Nyrs yn rhoi taflen i chi yn dweud popeth wrthy ch chi am hynny a beth i'w wneud.

Ar ôl 24 awr, os ydych chi'n cael anhawster pasio wrin neu os yw'ch wrin yn parhau i fod â staen gwaed, cysylltwch â'ch meddyg teulu i gael cyngor neu ffoniwch NHS Direct ar **0845 46 47**, ar gael 24 awr y dydd.

Beth yw'r buddion?

Mae'r prawf hwn yn caniatáu i'ch Ymgynghorydd wneud diagnosis cywir o'ch cyflwr. Yna byddant yn gallu cynnig y driniaeth gywir i chi, a ddylai eich helpu i ddychwelyd i ffordd o fyw mwy egniol a chymdeithasol.

Beth os oes gen i fwy o gwestiynau?

Cofiwch, er bod y driniaeth yn swnio'n anghyfforddus ac yn chwithig, rydych chi wedi goresgyn y rhan anoddaf trwy ddweud wrth y Meddyg am eich problem.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi nyrsys arbenigol sy'n gallu eich helpu chi a siarad â chi am eich problem; gallant hefyd ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y prawf.

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â:-

Wardiau Wroleg:-

D 5 Gorllewinol ar:- 01633 – 234040 / 234041 (24 awr)

D 5 Dwyreiniol ar:- 01633 – 234104 (24 awr)

Nyrsys Arbenigol

Coral Seymour, Paulette Hussain & Zoe Ladd

Rhif ffôn:- 01633 – 234976

Addaswyd o Chapple C R and MacDiarmid S (2000) Urodynamics Made Easy (2nd ed) London:
Churchill Livingstone

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”.**